

## **Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 23 October 2024, at 2pm. Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams**

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Tim Zhou, Martin O'Neill, Richard Jarvis and Rhian Evans

**Officer Present:** Ian Hughes – CSO

**CT2410-01 Apologies for Absence**

Cllr Hannah Hunter

**CT2410-02 Declarations of Interest**

None

**CT2410-03 Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meetings held on 25th September 2024 as a true record.

**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 25<sup>th</sup> September 2024 as an accurate record.

**CT2410-04 Update on actions from previous meetings.**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**CT2410-05 Budget Monitoring Report to 31/08/2024 - RFO, Paul Beynon** Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon who had previously distributed the reports to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting, and no questions were raised at the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st August 2024.

CT2410-06 **Budget 2025/26**

The RFO had previously set out at Full Council the importance of a budgeting timetable for the remainder of the financial year, looking ahead through planning at committee meetings and the early submission of budget proposal forms.

The Chair, Cllr O'Connor reminded all committee members of the need for budget proposal forms to be submitted to RFO before 31.10.2024.

CT2410-07 **Essence of Mumbles Update**

Cllr Zhou outlined that 75 entries had been received for the Essence of Mumbles Competition and that the winner had been chosen. The process of selecting suitable photographs together with their printing, is in hand, for the display and award ceremony on 11<sup>th</sup> November 2024.

A discussion took place during which it was agreed that for the inaugural year of the competition, there had been good public participation for relatively low expenditure. The Chair of MCC, Cllr O'Neill will be awarding the prizes and consideration is to be given to providing an additional award/announcement at The Christmas Parade to highlight the event for future occasions.

**RESOLVED:** To provide the opportunity for a feedback session once the competition award ceremony is completed.

CT2410-08

**Mumbles Folk and Blues Festival Update**

Cllr Jarvis confirmed that on 8<sup>th</sup> October 2024, Full Council had agreed that the Mumbles Folk and Blues Festival should take place on Sunday 4<sup>th</sup> October 2025 with delegated powers to arrange the event being provided to the Culture, Tourism and Communication Committee.

The date avoids other major events including the Autumn Rugby Internationals, although the date was chosen to coincide with a proposed OctoberFest Event in Mumbles, thereby hopefully providing an economic boost to Mumbles on what would otherwise be a quiet autumn weekend.

Cllr Jarvis then read out a draft letter which had been circulated to councillors prior to the meeting. The letter is aimed at businesses, primarily potential venues, making them aware of the aims of the festival.

Cllr Jarvis further outlined how he had liaised with Swansea Building Society in the hope of fundraising/sponsorship for the festival. This will be carried out nearer the time of the festival and it is hoped that no financial assistance will be required from MCC although this cannot be guaranteed. The festival itself will require minimal organisation by MCC Councillors and Officers as the venues in question will be responsible for the hiring of the acts that relate to their premises.

**RESOLVED:** that Cllr Jarvis forward his letter to potential venues within Mumbles, making them aware of the proposed festival; this letter will highlight the full support of the Culture Committee. In addition, Cllr Jarvis to fully utilise all mediums, including local radio, MCC Website, Social Media, posters and banners to advertise the festival.

CT2410-09

### **Tourism Information Access (Carousel at Ostreme)**

Although adopting a carousel at The Ostreme had previously been agreed to be recommended for Full Council approval, the committee felt further consultation with staff was necessary. All parties impacted upon, by the introduction of a carousel containing information for visitors are to be consulted and the consequences to be fully assessed.

**ACTION:** the CSO to arrange a meeting between himself, The Clark and all interested parties to assess the suitability of providing a carousel for tourist information at Ostreme.

CT2410-10

### **VE 80<sup>th</sup> Anniversary Celebrations**

The Chair, Cllr O'Connor confirmed that on 8<sup>th</sup> October 2024, Full Council had agreed to a VE 80<sup>th</sup> Anniversary Celebration on Thursday 8<sup>th</sup> May 2025 at the Ostreme Centre at a cost of up to £2,000 subject to budget availability.

CT2410-11

### **Newsletter**

The Chair, Cllr O'Connor confirmed that on 8<sup>th</sup> October 2024, Full Council had agreed to a greater use of a digital newsletter, to be used in conjunction with a limited distribution of a printed newsletter.

CT2410-12

### **Halloween Disco for 11-14yrs at CU**

The Chair, Cllr O'Connor confirmed that on 8<sup>th</sup> October 2024, Full Council had agreed to a Halloween Disco taking on Tuesday 29<sup>th</sup> October 2024. Cllr O'Connor clarified that the event will be taking place at The Hub, Underhill Park and not The CU Venue.

The cost of the event will be £565 which will be funded through an underspent budget in 2024/25.

CT2410-13 **February Family Fun Days**

The Chair, Cllr O'Connor deferred this item until such time as the budgetary funds allow for this item to be considered.

CT2410-14 **Honour of Mumbles**

The Chair, Cllr O'Connor confirmed that on 8<sup>th</sup> October 2024, Full Council had agreed that a policy for honouring local persons within MCC for their notable contribution to the area be devised and brought back to Full Council for consideration.

CT2410-15 **Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded for the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

CT2410-16 **MumblesFest 2025 – Closed Session**

Discussion on progress of MumblesFest 2025

**RECOMMENDED:** that Full Council accept the recommendation in relation to the future of MumblesFest 2025.

**The meeting ended at 2.57pm.**

**Next Meeting on 27 November 2024**

## **Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu Dydd Mercher, 23 Hydref 2024, am 2pm. Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams**

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-Gadeirydd), Tim Zhou, Martin O'Neill, Richard Jarvis a Rhian Evans

**Swyddogion yn bresennol:** Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CT2410-01      Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghydd Hannah Hunter

**CT2410-02      Datganiadau o fuddiant**

Dim

**CT2410-03      Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 fel cofnod cywir.

**CT2410-04      Diweddarriad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddarriad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' iaelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddar a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**CT2410-05      Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31/08/2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beyon** Adroddiadau ynghlwm.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu naill ai i'r Swyddog

Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod, ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Awst 2024.

CT2410-06

### **Cyllideb 2025/26**

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol eisoes wedi nodi yn y cyngor llawn bwysigrwydd amserlen gyllidebu ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol, gan edrych ymlaen drwy gynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor a chyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb yn gynnar.

Atgoffodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Connor, holl aelodau'r pwyllgor o'r angen i ffurflenni cynnig cyllideb gael eu cyflwyno i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn 31 Hydref 2024.

CT2410-07

### **Diweddarriad ar Naws y Mwmbwls**

Amlinelloedd y Cyngorydd Zhou fod 75 o geisiadau wedi'u derbyn ar gyfer Cystadleuaeth Naws y Mwmbwls a bod yr enillydd wedi'i ddewis. Mae'r broses o ddewis ffotograffau addas, ynghyd â'u hargraffu, ar y gweill, ar gyfer yr arddangosiad a'r seremoni wobrwyd ar 11 Tachwedd 2024.

Cafwyd trafodaeth, pan gytunwyd, ar gyfer blwyddyn gyntaf y gystadleuaeth, y bu cyfranogiad cyhoeddus da am wariant cymharol isel. Bydd Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cyngorydd O'Neill, yn dyfarnu'r gwobrau a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu gwobr/cyhoeddiad ychwanegol yng Ngorymdaith y Nadolig i amlygu'r digwyddiad ar gyfer achlysuron yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** Rhoi'r cyfle am sesiwn adborth unwaith y bydd seremoni wobrwyd y gystadleuaeth wedi'i chwblhau.

CT2410-08

### **Diweddarriad ar Wyl Werin a Blŵs y Mwmbwls**

Cadarnhaodd y Cyngorydd Jarvis fod y cyngor llawn ar 8 Hydref 2024 wedi cytuno y dylid cynnal Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls ddydd Sul, 4 Hydref 2025, gyda phwerau dirprwyedig i drefnu'r digwyddiad yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu.

Mae'r dyddiad yn osgoi digwyddiadau mawr eraill, gan gynnwys gemau rygbi rhwngwladol yr hydref, er bod y dyddiad wedi'i ddewis i gyd-fynd â digwyddiad Oktoberfest arfaethedig yn y Mwmbwls, a'r gobaith yw y bydd hynny'n rhoi hwb economaidd i'r Mwmbwls ar yr hyn a fyddai fel arall yn benwythnos hydref tawel.

Yna darllenodd y Cyngorydd Jarvis lythyr drafft a oedd wedi'i ddosbarthu i'r cyngorwyr cyn y cyfarfod. Mae'r llythyr wedi'i anelu at fusnesau, yn bennaf lleoliadau posibl, gan eu gwneud yn ymwybodol o amcanion yr wyl.

Amlinelloedd y Cyngorydd Jarvis ymhellach sut yr oedd wedi cysylltu â Chymdeithas Adeiladu Abertawe yn y gobaith o godi arian / cael nawdd ar gyfer yr wyl. Bydd hyn yn cael ei wneud yn nes at amser yr wyl a'r gobaith yw na fydd angen cymorth ariannol gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls, er na ellir gwarantu hyn. Ychydig iawn o drefniadaeth fydd ei hangen ar yr wyl ei hun gan gyngorwyr a swyddogion Cyngor Cymuned y Mwmbwls gan mai'r lleoliadau dan sylw fydd yn gyfrifol am logi'r adloniant sy'n ymwned a'u safleoedd.

**PENDERFYNWYD:** bod y Cyngorydd Jarvis yn anfon ei lythyr at leoliadau posibl yn y Mwmbwls, gan eu gwneud yn ymwybodol o'r wyl arfaethedig; bydd y llythyr hwn yn amlygu cefnogaeth lawn y Pwyllgor Diwylliant. Yn ogystal, bod y Cyngorydd Jarvis yn defnyddio pob cyfrwng yn llawn, gan gynnwys radio lleol, gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls, cyfryngau cymdeithasol, posteri a baneri, i hysbysebu'r wyl.

CT2410-09

### **Mynediad at wybodaeth i dwristiaid (carwsél yn Ostreme)**

Er bod mabwysiadu carwsél yng Nghanolfan Ostreme wedi'i gytuno'n flaenorol i'w argymhell i'r cyngor llawn ei gymeradwyo, teimlai'r pwyllgor fod angen ymgynghori ymhellach â staff. Ymgynghorir â'r holl bartion yr effeithir arnynt drwy gyflwyno carwsél sy'n cynnwys gwybodaeth i ymwelwyr, a bydd y canlyniadau'n cael eu hasesu'n llawn.

**CAM GWEITHREDU:** y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i drefnu cyfarfod rhyngddo ef, y Clerc a phawb sydd â diddordeb i asesu addasrwydd darparu carwsél ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid yn Ostreme.

CT2410-10

### **Dathliadau 80 mlynedd ers Diwrnod VE**

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Connor, fod y cyngor llawn, ar 8 Hydref 2024, wedi cytuno i ddathliad pen-blwydd VE yn 80 ar ddydd Iau, 8 Mai 2025, yng Nghanolfan Ostreme am gost o hyd at £2,000, yn amodol ar argaeledd cyllideb.

CT2410-11

### **Cylchlythyr**

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Connor, fod y cyngor llawn, ar 8 Hydref 2024, wedi cytuno i ddefnydd mwy o gylchlythyr digidol, i'w ddefnyddio ar y cyd â dosbarthiad cyfyngedig o gylchlythyr argraffedig.

CT2410-12

### **Disgo Calan Gaeaf i blant 11-14 oed yn Cu Mumbles**

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Connor, fod y cyngor llawn ar 8 Hydref 2024 wedi cytuno i gynnal Disgo Calan Gaeaf ddydd Mawrth, 29 Hydref 2024.

Eglurodd y Cyngorydd O'Connor y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn The Hub, Parc Underhill, ac nid Cu Mumbles.

Cost y digwyddiad fydd £565, a fydd yn cael ei ariannu drwy danwariant mewn cyllideb yn 2024/25.

CT2410-13

### **Diwrnodau Hwyl i'r Teulu ym mis Chwefror**

Gohiriodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Connor, yr eitem hon hyd nes y bydd y cyllid cyllidebol yn caniatáu i'r eitem hon gael ei hystyried.

CT2410-14

### **Anrhydedd y Mwmbwls**

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Connor, fod y cyngor llawn ar 8 Hydref 2024 wedi cytuno bod polisi ar gyfer anrhydeddu pobl leol o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls am eu cyfraniad nodedig i'r ardal yn cael ei lunio a'i ddwyn yn ôl i'r cyngor llawn i'w ystyried.

CT2410-15

### **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes a ganlyn oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**PENDERFYNWYD**, oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

CT2410-16

### **Gŵyl y Mwmbwls 2025 – sesiwn gaeedig**

Trafodaeth ar gynnydd Gŵyl y Mwmbwls 2025

**ARGYMHELLWYD:** bod y cyngor llawn yn derbyn yr argymhelliaid mewn perthynas â dyfodol Gŵyl y Mwmbwls 2025.



CT2410-MI Drafft

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.57pm.**

**Cyfarfod nesaf ar 27 Tachwedd 2024**